

Ynni Cymunedol

Astudiaethau achos cymorth
cymunedol SP Energy Networks

Pwmp Gwres Fintry



Pwmp Gwres Fintry

Mae Ymddiriedolaeth Ddatblygu Fintry wedi bod yn cefnogi newid cynaliadwy yn Fintry, Swydd Stirling ers 2007. Yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi mynd ati'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i gefnogi'r gwaith o osod 62 pwmp gwres o'r aer yn y pentref, a 18 pwmp gwres o'r ddaear, gan helpu i ddatgarboneiddio dros draean o eiddo domestig Fintry.

- 62 pwmp gwres o'r aer a 18 pwmp gwres o'r ddaear wedi'u gosod ar draws eiddo domestig yn Fintry
- Cefnogi mesurau datgarboneiddio yn y pentref ers 2007
- Technolegau adnewyddadwy a mesurau effeithlonrwydd ynni wedi'u gosod mewn adeiladau domestig a chymunedol
- Wedi cefnogi aelodau'r gymuned sydd mewn tlodi tanwydd gyda thalebau tanwydd

Mae Ymddiriedolaeth Ddatblygu Fintry (FDT) yn deillio o berthynas a grëwyd gyda fferm wynt leol. Roedd incwm o weithrediad y fferm wynt yn cael ei dalu'n flynyddol i'r gymuned ar ffurf budd cymunedol, gan arwain at sefydlu'r ymddiriedolaeth. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar ddefnyddio'r incwm i helpu i ddatgarboneiddio'r pentref.

Dros y blynyddoedd ers ei sefydlu, mae FDT wedi cyflawni nifer o brosiectau'n ymwneud â chefnogi aelwydydd yn y pentref i osod pypiau gwres o'r aer a phympiau gwres o'r ddaear, ac maent hefyd wedi darparu gwasanaeth cynghori ar ynni ac adeiledd, cynnal sesiynau galw heibio yn y gymuned, a darparu cymorth grant.



Delwedd gynrychioladol



Pwmp Gwres Fintry (parhad)

Mae'r grŵp wedi wynebu nifer o heriau wrth gyflawni'r gwasanaethau hyn yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am y dechnoleg o fewn y gymuned, costau gosod y systemau o'i gymharu ag ailosod systemau gwresogi tanwydd ffosil presennol tebyg, a gwybodaeth weithredol am sut i ddefnyddio'r system yn effeithiol gan ystyried tariffau amser defnyddio ac apiau ffonau symudol.

Er mwyn goresgyn yr heriau hyn, bu FDT yn cyflogi Cyngorydd Ynni wedi'i leoli yn y gymuned. Roedd y rôl hon yn galluogi ymgysylltiad uniongyrchol gydag aelodau o'r gymuned, gan ddarparu cyngor arbenigol ar dechnolegau ynni, cynnig cymorth i gwblhau ceisiadau grant, a chymorth ymarferol wrth ddefnyddio technolegau newydd.

Roedd dulliau eraill a ddefnyddiwyd i oresgyn rhwystrau rhag mabwysiadu pypiau gwres yn cynnwys darparu grantiau i bontio bylchau cyllid, cynnal sesiynau galw heibio i roi cyfle i breswylwyr drafod technolegau gyda chymdogion a ffrindiau, a chynnal Sioe ddeuddydd Ynni Adnewyddadwy Fintry. Roedd y digwyddiad hwn yn cyfuno arddangosiadau ymarferol gyda chyflwyniadau, gan gefnogi aelodau o'r gymuned i ddatblygu gwell dealltwriaeth o dechnolegau carbon isel a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Roedd profiad y grŵp yn dangos bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dechnoleg pypiau gwres yn brin iawn pan ddechreuodd yr Ymddiriedolaeth. Trwy gynnal digwyddiadau yn y gymuned a chreu cyfleoedd i'r rhai a fabwysiadodd bympiau gwres yn gynnar rannu eu profiadau personol, llwyddodd y grŵp i feithrin ymddiriedaeth, hyder a chymeradwyaeth. Mae clywed yn uniongyrchol gan breswylwyr lleol sut mae pypiau gwres wedi perfformio yn eu cartrefi eu hunain wedi bod yn llawer mwy dylanwadol nag enghreifftiau o osodiadau mewn lleoliadau eraill, gan bwysleisio gwerth dysgu gan drigolion o fewn y gymuned.

Mae pypiau gwres yn llawer mwy cyffredin erbyn hyn, wedi'u cefnogi gan ymgyrchoedd gosod cenedlaethol a hyrwyddo masnachol eang. Er gwaetha'r cynnydd mewn gwelededd, mae FDT yn dal i elwa o gymuned ymrwymedig iawn sy'n gwerthfawrogi gwybodaeth leol a phrofiad ymarferol.


Ers ei sefydlu bron i 20 mlynedd yn ôl, ac ochr yn ochr â chefnogi'r gwaith o osod pypiau gwres yn y gymuned, mae FDT wedi galluogi datblygiad ystod eang o fesurau carbon isel ac ynni effeithlon eraill. Mae'r rhain yn cynnwys uwchraddio inswleiddio, ynni solar ffotofoltäig, storio ynni mewn batris, systemau gwresogi biomas, a gwaith ôl-osod eang mewn adeiladau domestig a chymunedol ar draws y pentref. Mae rhannu gwybodaeth a chyngor ymarferol y gellir ymddiried ynddynt yn ganolog i'r gwaith hwn, ynghyd â darparu cyllid grant lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol i helpu i oresgyn rhwystrau ariannol a thechnegol rhag gweithredu.

Mae rhai o'r heriau y mae'r grŵp cymunedol yn dymuno eu goresgyn yn y dyfodol yn cynnwys sut i gynorthwyo aelodau'r gymuned a fabwysiadodd y pypiau gwres yn gynnar i adnewyddu asedau sy'n heneiddio lle nad oes cyllid ar gael ar hyn o bryd. Mae ceisio cefnogi aelodau'r gymuned i ôl-osod system gyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatgarboneiddio gwres yn unig yn her arall a fydd, gobeithio, yn helpu i fynd i'r afael â materion tlodi tanwydd.

I grwpiau cymunedol sy'n dymuno gosod eu pypiau gwres eu hunain, byddai FDT yn cynghori eu bod yn cymryd amser i ystyried y diweddariadau angenrheidiol i adeiledd cyn ystyried datgarboneiddio gwres. Mae gwneud y ddau beth gyda'i gilydd yn gallu bod yn broses ddrudd, a gall hefyd fod yn gymhleth i rywun heb gefndir ym maes ynni neu reoli prosiectau. Bydd ystyried unrhyw waith uwchraddio adeiledd o'r dechrau yn caniatáu ar gyfer gosod amserlen gam wrth gam, ac felly gall gwaith uwchraddio priodol ddigwydd mewn modd cydnaws.



Pwmp Gwres Fintry



Ynni Cymunedol

Astudiaethau achos cymunedol
SP Energy Networks
Pwmp Gwres Fintry

communityenergy@spenergynetworks.co.uk